1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno dau Gynllun Gweithredu Llifogydd a baratowyd gan Gyngor Sir y Fflint (CSyFf). Mae'r Cynlluniau Gweithredu Llifogydd yn seiliedig ar Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd Sir y Fflint, sydd hefyd yn cynnwys eu Cynllun Rheoli Risg Llifogydd. Mae pob cynllun yn nodi'r camau gweithredu y mae CSyFf yn cynnig eu darparu dros oes eu Strategaeth i sicrhau bod yr holl amcanion yn cael eu cyflawni.

Mae gan bob cam gweithredu amserlen a chost ddarparu gysylltiedig. Caiff yr amserlen ei phennu yn unol â lefel y flaenoriaeth, cwmpas y gwaith dan sylw a'r adnoddau sydd ar gael. Nodir y costau a'r amserlenni dangosol isod:

Amserlenni

- Tymor Byr: 0 - 2 flynedd
- Tymor Canolig: 3 - 5 mlynedd
- Tymor Hir: 6 - 10 mlynedd

Cost

- Adnoddau Presennol (AP): Dim goblygiadau o ran cost, o fewn cyllidebau presennol
- Cost Isel Iawn: £0 - £10,000
- Cost Isel: £10,001 - £30,000
- Cost Ganolig: £30,001 - £100,000
- Cost Uchel: £101,000 - £500,000
- Cost Uchel Iawn: £500,000 +

Cynllun Gweithredu Polisi

Mae'r Cynllun Gweithredu Polisi yn nodi'r camau gweithredu arfaethedig a fydd yn cael effaith gyffredinol ar y sir gyfan. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys polisïau newydd mewn perthynas â rheoli risg llifogydd, gwella proses ymgeisio'r Corff Cymeradwyo a hwyluso cydweithio. Nid yw camau gweithredu'n cynnwys gwaith sy'n benodol i safle na gwaith rhanbarthol i reoli risg llifogydd.

Cynllun Gweithredu Cymuned Benodol

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymuned Benodol wedi'i baratoi yn seiliedig ar allbynnau'r Cynllun Rheoli Risg Llifogydd. Mae ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd wedi'u nodi'n seiliedig ar nifer yr asedau a effeithir yn ogystal â'r dosbarthiad risg a neilltuwyd. Mae pob ardal wedi'i hadolygu a chamau gweithredu penodol wedi'u nodi.

2. Cynllun Gweithredu Polisi

Cyf	Cam Gweithredu	Amserlen	Cost (£)	Buddion	Cyllid	Cynnydd hyd yma (Ionawr 2025)
01	Adolygu a diweddaru is-ddeddfau drafft a baratowyd gan CLlLC ac ystyried eu mabwysiadu yn Sir y Fflint	Byr	AP / Isel iawn	• Lleihau datblygiad amhriodol • Lleihau risg llifogydd i gymunedau • Esmwytho proses y Corff Cymeradwyo i ddatblygwyr / cynllunwyr	• Cyllid refeniw • Potensial i gynhyrchu incwm: Adnoddau Dŵr Gweithredol	• Adolygiad o restr is-ddeddfau CLlLC ar y gweill
02	Gwella galluoedd mapio digwyddiadau llifogydd gan ddefnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol mewnol y Cyngor ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd.	Byr	Isel iawn	• Cefnogi ymchwiliadau llifogydd • Cefnogi ceisiadau am gyllid ar gyfer gwaith cyfalaf	• Cyllid refeniw • Potensial i gynhyrchu incwm: cynlluniau cyfalaf	• Mae cronfa ddata ddigidol geogyfeiriol o adroddiadau o lifogydd y tu mewn i eiddo yn cael ei llunio i gefnogi ymchwiliadau a cheisiadau am gyllid
03	Datblygu ac adolygu Cofrestr Asedau'r Cyngor gydag effaith arwyddocaol ar risg llifogydd lleol (CSyFf ac Asedau Trydydd Parti)	Parhaus	AP / Isel iawn	• Lleihau risg llifogydd i gymunedau trwy reoli asedau'n well	• Cyllid refeniw	• Mae holl asedau CSyFf wedi'u modelu i asesu risg llifogydd cysylltiedig • Mae angen gwneud gwaith pellach i nodi asedau trydydd parti o ddiddordeb
04	Gweithredu rhaglen i'r gwaith o reoli'r asedau hynny ar y "Gofrestr Asedau ag effaith arwyddocaol ar risg llifogydd lleol" gael eu monitro gan eu perchnogion priodol (gan gynnwys trydydd partïon)	Parhaus / Canolig	AP	• Lleihau risg llifogydd i gymunedau	• Cyllid refeniw	• Mae asedau priffyrdd CSyFf yn cael eu cynnal a'u cadw gan y Gwasanaethau Stryd ar hyn o bryd, ac asedau trydydd parti eraill yn cael eu cynnal a'u cadw gan eu perchnogion h.y. asedau sy'n eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu cynnal a'u cadw ganddynt
05	Datblygu fframwaith o gytundebau i gydweithredu ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill er mwyn gwneud y mwyaf o bwerau Adran 14 o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.	Hir	Isel iawn	• Dyletswydd Statudol • Lleihau risg llifogydd i gymunedau	• Cyllid refeniw	• Cyfarfodydd amlasiantaeth parhaus
06	Cynnal a chadw dull gweithredu amlasiantaeth cydweithredol gydag Awdurdodau Rheoli Risg eraill i fynd i'r afael â heriau o ran llifogydd a draenio yn lleol. Defnyddio pecynnau offer / cefnogaeth allanol ar gyfer llifogydd fel sy'n briodol (FloodHub).	Parhaus	AP	• Dyletswydd Statudol • Lleihau risg llifogydd i gymunedau	• Cyllid refeniw	• Cyfarfodydd amlasiantaeth parhaus

Cyf	Cam Gweithredu	Amserlen	Cost (£)	Buddion	Cyllid	Cynnydd hyd yma (Ionawr 2025)
07	Ystyried cyfleoedd amgen am gyllid allanol a cheisio gwneud y mwyaf trwy hyrwyddo buddion lluosog.	Canolig	AP	• Lleihau risg llifogydd i gymunedau	• Cyllid refeniw. • Potensial i gynhyrchu incwm: cynlluniau cyfalaf	• 11 datganiad o ddiddordeb wedi'u cyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cynlluniau cyfalaf (2025/2026) • 5 datganiad o ddiddordeb wedi'u cyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwaith bach (2025/2026)
08	Gwella cydweithredu rhwng yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol a thimau mewnol eraill CSyFf i gefnogi coridorau isadeiledd glas-gwyrdd.	Canolig	AP	• Lleihau risg llifogydd i gymunedau • Buddion amgylcheddol a chymunedol	• Cyllid refeniw.	
09	Cais am gyllid allanol i gefnogi prosiectau peilot er mwyn annog mabwysiadu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur.	Byr	Canolig	• Lleihau risg llifogydd i gymunedau • Buddion amgylcheddol a chymunedol • Ychwanegu at sylfaen gwybodaeth academaidd	• Refeniw / cyllid cyfalaf cyfatebol • Potensial i gynhyrchu incwm: cynlluniau cyfalaf	• 7 cais wedi'u cyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru am gyllid ar gyfer datrysiadau'n seiliedig ar natur (2025 / 2026)
10	Parhau i gefnogi'r fforwm gwytnwch gyda diweddariadau gofynnol a gweithredu Cynllun Rheoli Risg Llifogydd CSyFf	Parhaus	AP	• Lleihau effaith llifogydd i gymunedau	• Cyllid refeniw	• Cyfarfodydd parhaus i drafod y trefniadau a'r cynlluniau cyfredol i ddiweddaru'r cynllun tynnu dŵr i lawr mewn argyfwng ar gyfer y gronfa ddŵr.
11	Datblygu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol e.e. gweithgareddau ymwybyddiaeth ac ymgysylltu cymunedol a sianeli adborth cyhoeddus	Byr	Isel iawn	• Gwella ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau risg llifogydd	• Cyllid refeniw	• Digwyddiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal ar gyfer cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol parhaus.
12	Diweddaru gwefan y cyngor yn rheolaidd i sicrhau bod gwybodaeth gyfredol a chywir ar gael i'r cyhoedd e.e. polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.	Byr	AP	• Gwella ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau risg llifogydd • Gwella ymwybyddiaeth o brosiectau parhaus.	• Cyllid refeniw	• Cynhelir adolygiad o dudalennau'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol / Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar y cyd â'r Gwasanaethau Stryd a thimau cynllunio
13	Creu deunyddiau addysg clir a hygyrch sydd ar gael ar wefan y Cyngor, gan gynnwys cyfeirio at ganllawiau ymarfer Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS), mesurau Cadernid Eiddo rhag Llifogydd, cyfrifoldebau glannau afonydd ac ati.	Byr	AP	• Gwella ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau risg llifogydd.	• Cyllid refeniw	• Fel mesur dros dro mae canllawiau FloodHub yn cael eu defnyddio yn ôl y gofyn

Cyf	Cam Gweithredu	Amserlen	Cost (£)	Buddion	Cyllid	Cynnydd hyd yma (Ionawr 2025)
14	Adolygu datganiadau draenio - cynllunio	Byr	Canolig	• Gwneud lle priodol i ddŵr mewn datblygiadau • Lleihau risg llifogydd i gymunedau • Buddion amgylcheddol a chymunedol • Lleihau oedi ym mhroses y Corff Cymeradwyo • Lleihau'r angen am orfodaeth	• Cyllid refeniw	• Mae Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol eraill wedi dechrau hyn yn unol â chanllawiau TAN15. Ymddengys mai dyma'r darn coll yn y broses Corff Cymeradwyo a dylai arwain at ymgysylltiad cynnar a llai o angen am orfodaeth.
15	Cyflwyno gwasanaeth cyn ymgeisio i'r Corff Cymeradwyo a chodi tâl amdano	Byr	AP / Isel iawn	• Gwneud lle priodol i ddŵr mewn datblygiadau • Lleihau risg llifogydd i gymunedau • Buddion amgylcheddol a chymunedol	• Cyllid refeniw. • Ffi ymgeisio i'r Corff Cymeradwyo	• Rhestr ffioedd a gytunwyd - ar draws Cyrff Cymeradwyo Gogledd Cymru
16	Datblygu a gweithredu System Rheoli Cyrff Cymeradwyo, i reoli ceisiadau, gan integreiddio gyda'r broses gynllunio.	Byr	I'w gadarnhau	• Lleihau oedi ym mhroses y Corff Cymeradwyo • Lleihau risg llifogydd i gymunedau • Buddion amgylcheddol a chymunedol	• Cyllid refeniw	• Gwaith yn parhau gydag ymgynghorwyr allanol ac ar y cyd â Chyrff Cymeradwyo eraill gogledd Cymru
17	Datblygu dogfen canllawiau technegol Cyrff Cymeradwyo Gogledd Cymru i ddatblygwyr / preswylwyr gydag atodiad yn ymdrin â chytundeb penodol Sir y Fflint ar gyfer trefniadau Systemau Draenio Cynaliadwy / Cyrff Cymeradwyo.	Byr	Isel	• Lleihau risg llifogydd i gymunedau • Buddion amgylcheddol a chymunedol	• Cyllid refeniw	• Canllawiau Cyrff Cymeradwyo Gogledd Cymru wedi'u llunio.
18	Ystyried nodi safleoedd Cyrff Cymeradwyo ar gofrestr CON29 i atal datblygiad amhriodol cyn cael cymeradwyaeth Cyrff Cymeradwyo.	Parhaus	AP / Isel iawn	• Lleihau'r angen am orfodaeth • Cynorthwyo prynwyr eiddo • Lleihau risg llifogydd i gymunedau	• Cyllid refeniw	• Nid yw'r posibilrwydd wedi'i drafod gyda thîm CON29 eto, mae angen cadarnhau'r hyfywedd.
19	Ymestyn gweithdrefnau gorfodaeth y Cyngor i ganiatáu ar gyfer gorfodaeth briodol gan y Cyngor fel Corff Cymeradwyo.	Byr	AP / Isel iawn	• Lleihau risg llifogydd i gymunedau	• Cyllid refeniw	• Bydd gweithdrefnau gorfodaeth mewnol CSyFf yn cael eu hadolygu yn gyntaf. Gweithdrefnau awdurdodau arweiniol yn y de e.e. RhCT gydag adolygiad i fabwysiadu dull gweithredu cadarn

20	Datblygu strategaeth ar gyfer dargadw a datblygu sgiliau Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol / draenio yn y Cyngor	Canolig	AP / Isel iawn	• Dargadw a datblygu sgiliau mewnol • Cyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 / Deddf Draenio Tir 1991	• Cyllid refeniw	• Cefnogi DPP ac aelodaeth o gyrff proffesiynol achrededig perthnasol (CIWEM / ICE ac ati)

Cyf	Cam Gweithredu	Amserlen	Cost (£)	Buddion	Cyllid	Cynnydd hyd yma (Ionawr 2025)
21	Datblygu cyfleoedd am brentisiaethau / lleoliadau gradd yn adran Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol y Cyngor	Canolig	Isel iawn	• Dargadw a datblygu sgiliau mewnol • Cyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 / Deddf Draenio Tir 1991	• Cyllid refeniw.	• Un aelod o staff yn elwa o gefnogaeth i ennill gradd mewn prifysgol leol ar hyn o bryd
22	Cynnal adolygiad strategol lefel uchel o ddigwyddiadau llifogydd a risgiau llifogydd a fapiwyd ar draws Sir y Fflint i bennu camau strategol i'w cymryd i ddarparu cyfalaf	Canolig	Canolig	• Gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. • Hyrwyddo Rheoli Risg Llifogydd yn rhagweithiol.	• Grant Bach • Cyllid Refeniw	• Dechrau asesiad o hanes llifogydd wedi'i gofnodi.

3. Cynllun Gweithredu Cymuned Benodol

Cyf	Cam Gweithredu	Lleoliad	Amserlen	Cost (£)	Dewisiadau cyllido	Cynnydd hyd yma (Ionawr 2025)
01	Cais am gyllid i ddatblygu Achos Amlinellol Strategol a/neu Achos Cyfiawnhad Busnes / Achos Busnes Amlinellol	Bagillt	Canolig	Canolig	• Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	
02	Parhau Achos Busnes Amlinellol gyda'r nod o arwain at Raglen Gwaith Cyfalaf bosibl.	Bretton	Byr	Canolig	• Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	
03a	Parhau Achos Busnes Amlinellol gyda'r nod o arwain at Raglen Gwaith Cyfalaf bosibl.	Brychdyn	Byr	Canolig	• Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	• Datblygu Achos Busnes Amlinellol ar waith.
03b	Cyfnod adeiladu gwaith gwella sgrin brigau lleol	Brychdyn	Byr	Canolig	• Grant Bach	• Dyluniad manwl yn cael ei gadarnhau.
04	Cyfnod Dylunio ac Adeiladu Manwl y cynllun lleihau dŵr wyneb	Bwcle	Byr	Uchel	• Grant Bach • Cyllid Refeniw	
05	Cais am gyllid i ddatblygu Achos Amlinellol Strategol a/neu Achos Cyfiawnhad Busnes / Achos Busnes Amlinellol posibl	Caergwrle	Canolig	Canolig	• Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	
06	Cynnal asesiad i ddeall hanes llifogydd lleol a risg llifogydd	Cilcain	Hir	Isel	• Grant Bach • Cyllid Refeniw	
07	Cais am gyllid i ddatblygu Achos Amlinellol Strategol a/neu Achos Cyfiawnhad Busnes / Achos Busnes Amlinellol posibl	Cei Connah	Canolig	Canolig	• Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	
08	Cynnal asesiad i ddeall hanes llifogydd lleol a risg llifogydd	Aber y Dyfrdwy	Hir	Isel	• Grant Bach • Cyllid Refeniw.	
09	Cais am gyllid i ddatblygu Achos Amlinellol Strategol a/neu Achos Cyfiawnhad Busnes / Achos Busnes Amlinellol posibl	Y Fflint	Canolig	Canolig	• Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	

Cyf	Cam Gweithredu	Lleoliad	Amserlen	Cost (£)	Dewisiadau cyllido	Cynnydd hyd yma (Ionawr 2025)
10	Cais am gyllid i ddatblygu Achos Amlinellol Strategol a/neu Achos Cyfiawnhad Busnes / Achos Busnes Amlinellol posibl	Maes Glas	Canolig	Canolig	• Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	
11	Parhau Achos Busnes Amlinellol gyda'r nod o arwain at Raglen Gwaith Cyfalaf.	Hendre	Byr	Canolig	• Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	• Datblygu Achos Busnes Amlinellol ar waith.
12a	Parhau Achos Busnes Amlinellol gyda'r nod o arwain at Raglen Gwaith Cyfalaf.	Yr Wyddgrug	Byr	Canolig	• Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	• Datblygu Achos Busnes Amlinellol ar waith.
12b	Parhau â phrosiect cynllun grant bach	Yr Wyddgrug	Byr	Canolig	• Grant Bach • Cyllid Refeniw	• Datblygu prosiect ar y gweill.
12c	Parhau Achos Busnes Amlinellol gyda'r nod o arwain at Raglen Gwaith Cyfalaf.	Yr Wyddgrug	Canolig / Hir	Uchel Iawn	• Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	• Datblygu prosiect ar y gweill.
13	Ail gyfnod gwaith gwella	Padeswood	Byr	Canolig	• Grant Bach • Cyllid Refeniw	
14	Cynnal asesiad i ddeall hanes llifogydd lleol a risg llifogydd	Pontybodkin	Hir	Isel	• Grant Bach • Cyllid Refeniw	
15	Cynnal asesiad i ddeall hanes llifogydd lleol a risg llifogydd	Pontblyddyn	Hir	Isel	• Grant Bach • Cyllid Refeniw	
16	Parhau Achos Busnes Amlinellol gyda'r nod o arwain at Raglen Gwaith Cyfalaf.	Sandycroft	Byr	Canolig	• Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	• Datblygu Achos Busnes Amlinellol ar waith.
17	Cais am gyllid i ddatblygu Achos Amlinellol Strategol a/neu Achos Cyfiawnhad Busnes / Achos Busnes Amlinellol posibl	Treuddyn	Canolig	Canolig	• Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	